# P-04-452 : Hawliau Cyfartal i Bobl Ifanc Tiwb-borthedig

## Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid ar gael i sicrhau bod yr offer a'r gwasanaethau hanfodol sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc tiwb-borthedig ar gael iddynt.

Er enghraifft, ar hyn o bryd mae hawliau cyfartal ar gyfer pobl ifanc tiwb-borthedig yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn syrthio rhwng 2 gategori o angen sydd wedi'u diffinio. Mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn dweud oherwydd nad ydynt yn blant sydd angen Gofal Iechyd Parhaus - 'dim ond' plant tiwb-borthedig ydynt - ni all ariannu'r offer a'r gwasanaethau hanfodol yr ydym eu hangen. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili hefyd yn dweud na allant helpu oherwydd bod gan y plant hyn anghenion iechyd sylweddol. Mae'r diffiniadau hyn yn cau Pobl Ifanc Tiwb-borthedig allan ac felly'n gwahaniaethu yn eu herbyn, ac rydym yn mynnu bod ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r arferion hyn yng Nghaerffili. Er nad yw'n pobl ifanc yn gymwys i gael cymorth naill ai gan y gwasanaethau iechyd ym Mwrdeistref Caerffili neu'r gwasanaethau cymdeithasol, mae gennym berson ifanc sydd angen gofal bob awr o'r dydd - yr un peth â phlentyn newydd-anedig - sydd yn aml ag anableddau oherwydd salwch sy'n peryglu bywyd.

## Gwybodaeth ychwanegol

Mae angen 'label' ar ein pobl ifanc er mwyn iddynt allu gael mynediad awtomatig at gyllid ar gyfer offer a gwasanaethau hanfodol. Ar hyn o bryd, mae dadlau cyllidol rhwng adrannau'n digwydd yn dilyn cais am unrhyw beth ar gyfer Person Ifanc Tiwb-borthedig, a ni ddylai Rhieni/Gofalwyr fod yn rhan o'r dadleuon hyn. Y cyfan sydd ei angen arnom yw help i'n pobl ifanc cyn gynted â phosibl. Gofynnwn fod ateb cyflym yn cael ei ganfod i'n Pobl Ifanc

ac er lles eu Rhieni/Gofalwyr, a bod yr ateb hwnnw'n un synhwyrol sy'n berthnasol yn yr hir dymor.

**Prif ddeisebydd:** Dr Tymandra Blewett-Silcock

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 29 Ionawr 2013

**Nifer y llofnodion:** 142